OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1996 (Cy. 198)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Gorffennaf 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Gorffennaf 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 102, adran 108(2) ac adran 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), ac wedi gwneud y trefniadau hynny y maent yn eu hystyried yn briodol ar gyfer ymgynghori yn unol ag adran 117 o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2014 a daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y ddogfen" ("*the document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2008 o'r enw "Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru"(**3**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dirymu

**2.** Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008(**4**) wedi ei ddirymu.

(**1**) 2002 p. 32.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) Rhif ISBN 9780750444293.
(**4**) O.S. 2008/1732 (Cy. 169).

**Y cyfnod sylfaen**

**3.**—(1) Y cyfnod sylfaen mewn perthynas â disgybl yw'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r amser perthnasol (fel y'i diffinnir ym mharagraff (2)) ac sy'n dod i ben ar yr un amser â'r flwyddyn ysgol y bydd mwyafrif y disgyblion yn nosbarth y disgybl yn cyrraedd saith oed ynddi.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "yr amser perthnasol" ("*the relevant time*") yw—

(a) yn achos plentyn y darperir iddo addysg feithrin a ariennir cyn iddo gyrraedd tair oed, ei drydydd pen-blwydd;

(b) yn achos plentyn y darperir iddo addysg feithrin a ariennir ar ôl iddo gyrraedd tair oed, yr amser pan ddarperir addysg o'r fath iddo gyntaf; ac

(c) yn achos plentyn na ddarperir iddo unrhyw addysg feithrin a ariennir, yr amser pan fydd yn cael gyntaf addysg gynradd ac eithrio addysg feithrin.

**Meysydd dysgu, deilliannau dymunol a rhaglenni addysgol**

**4.**—(1) Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â meysydd dysgu, deilliannau dymunol a rhaglenni addysgol a nodir yn y ddogfen yn cael effaith at y diben o bennu'r meysydd dysgu, y deilliannau dymunol a'r rhaglenni addysgol ar gyfer y cyfnod sylfaen.

(2) Nid yw'r deilliannau dymunol a'r rhaglenni addysgol sy'n ymwneud â'r maes dysgu a elwir Datblygu'r Gymraeg a nodir yn y ddogfen yn gymwys i ddisgybl yn y cyfnod sylfaen os caiff y disgybl hwnnw ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

23 Gorffennaf 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Cyflwynwyd y cyfnod sylfaen ar 1 Awst 2008 gan Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008"). Yn ogystal, pennodd Gorchymyn 2008 gyfnod y cyfnod sylfaen a rhoddodd effaith gyfreithiol i'r meysydd dysgu, a oedd yn nodi'r deilliannau dymunol a'r rhaglenni addysgol.

Enw'r "foundation phase" yn wreiddiol yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 oedd y "foundation stage". Yn ymarferol, roedd ymarferwyr yn cyfeirio at y "foundation stage" fel y "foundation phase" yn Saesneg. O ganlyniad, diwygiwyd Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 gan Fesur Addysg (Cymru) 2009 ("Mesur 2009") er mwyn cyfeirio at y "foundation phase" yn lle'r "foundation stage". Yn sgil y newid hwnnw a wnaed gan Fesur 2009 ystyrir ei bod yn briodol dirymu Gorchymyn 2008 (erthygl 2) ac ail-wneud y Gorchymyn hwnnw er mwyn adlewyrchu newid yr enw i'r "foundation phase" yn Saesneg (erthygl 3). Yn Gymraeg, defnyddir yr enw "cyfnod sylfaen" ar gyfer y "foundation stage" a'r "foundation phase".

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.